

ASTUDIAETH ACHOS

# Lakeside Café

Busnes caffi a bwyty yw Lakeside Café, sy'n cael ei reoli gan Mari Rees-Stavros. Mae'r caffi wedi'i leoli yn ngwaelodion y Moelwynion. Oherwydd ei leoliad ym Mharc Cenedlaethol Eryri, mae'r caffi'n leoliad poblogaidd i dwristiaid, yn arbennig i ddringwyr, mynyddwyr, a beicwyr. Mae cwsmeriaid lleol sy'n dod yn gyson i'r caffi, ond yn yr haf, mae'r busnes yn bennaf yn gwasanaethu cwsmeriaid o du allan i'r ardal.

## Angen cynyddol am gysylltedd

Ar hyn o bryd, mae'n arferiad i fusnesau caffi gynnig WiFi i'w cwsmeriaid. Yn achos Lakeside Café, gall mynediad WiFi fod yn ddefnyddiol i deithwyr a allai fod angen gwybodaeth am yr ardal.

Yn enwedig ar ôl y pandemig, mae Mari wedi sylwi bod mwy o'i chwsmeriaid yn ffafrio talu gyda cherdyn yn hytrach nag arian parod. Maent yn defnyddio peiriant cerdyn sy'n gwbl ddibynnol ar fynediad i'r rhyngrwyd i weithredu.

Yn anffodus, fel llawer o ardaloedd gwledig dros y DU, mae cyflwyno band eang ffeibr yn yr ardal ar ei hôl hi o'i gymharu ag ardaloedd trefol mwy. Mae hwn yn golygu bod Lakeside Café wedi wynebu materion o ran cael mynediad WiFi, gan gynnwys cyfnod o 8 mis heb heb fynediad i'r rhyngrwyd.

Gan fod y peiriant arian agosaf tua dwy filltir i ffwrdd o'r caffi, arweiniodd hynny at golli taliadau gan y rhai nad oes ganddynt fynediad uniongyrchol at arian parod ar y pryd.

## Starlink - datrysiad i'r problemau cysylltedd

Mae Mari wedi ceisio datrysiadau amrywiol, yn cynnwys newid darparwyr a defnyddio llwybrydd 4G. Er hynny, mae hi wedi darganfod mai band eang lloeren, yn arbennig Starlink, ydy'r datrysiad mwyaf llwyddiannus iddynt. Roedd mynediad rhyngrwyd ar gael ar unwaith ar ôl ei osod. Ym mis Awst 2024, maent wedi bod yn defnyddio Starlink ers 14 mis, ac mae'n fodlon iawn â'r gwasanaeth.

Mae Starlink wedi gadael effaith positif iawn ar y busnes ac ar les Mari, gan nad ydynt yn wynebu'r mater o golli taliadau erbyn hyn. Wrth gwrs, gall cwsmeriaid ddefnyddio'r WiFi, ac mae gan y busnes y capasiti i ddefnyddio 2 beiriant cerdyn nawr.

> Mae Mari'n credu bod Starlink yn fendith i'r busnes, ac yn awgrymu y dylai busnesau gwledig ystyried opsiynau lloeren os nad yw band eang ffeibr ar gael iddynt eisoes.

Uchelgais Gogledd Cymru Ambition North Wales
Conwy · Sir Ddinbych / Denbighshire · Sir y Fflint / Flintshire · Gwynedd · Wrexham / Wrecsam · Ynys Môn / Isle of Anglesey

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU